Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

☎ 08442 64 06 70
🖷 08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Mr Chris Burns
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Tŷ Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
CF82 7PG

17 Ebrill 2015

Annwyl Mr Burns

Hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol a roddir o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006: Gwybodaeth Ychwanegol Angenrheidiol

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch ichi unwaith eto am roi ymateb prydlon i'm Hanghenion Gweithredu, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chanfyddiadau fy Adolygiad o Gartrefi Gofal.

Erbyn hyn, rwyf wedi cael cyfle i adolygu pob ymateb gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad ac rwyf wedi amgáu fy arfarniad o'ch ymateb chi.

Os codoch chi gwestiynau penodol ynghylch fy Anghenion Gweithredu, mae fy ymateb i'r rhain wedi'i atodi.

Wrth ddadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni.

Fel y gwelwch o'm dadansoddiad i, rwyf wedi nodi'n glir a yw pob elfen yn eich ymateb yn 'dderbyniol', yn 'rhannol' (angen rhagor o wybodaeth) neu'n 'annerbyniol'. Mae 'derbyniol' yn golygu bod lefel y sicrwydd sydd wedi'i roi imi ar sail yr wybodaeth a roddwyd yn ddigonol; mae 'rhannol' ac 'annerbyniol' yn golygu bod arna i angen rhagor o wybodaeth er mwyn cael fy sicrhau y bydd yr Angen Gweithredu'n cael ei roi ar waith ac y bydd y canlyniad arfaethedig yn cael ei gyflawni.

Iechyd ar Waith
Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Pan wyf wedi dod i'r casgliad bod elfen yn eich ymateb naill ai'n rhannol neu'n annerbyniol, mae arna i angen rhagor o wybodaeth neu ymagwedd ddiwygiedig er mwyn cael fy modloni bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â'r Angen Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol er mwyn cyflawni'r newid angenrheidiol. Dylech ddarparu'r wybodaeth hon imi erbyn **dydd Gwener 15 Mai 2015**, yn unol â'r amserlenni a bennir yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Os nad ydych yn glir ynglŷn ag unrhyw agwedd ar eich ymateb, yn arbennig felly beth fyddai'n rhoi'r lefel sicrwydd rwy'n chwilio amdani, neu os oes gennych gwestiynau manwl am yr Anghenion Gweithredu, mae croeso ichi gysylltu â mi.

O dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, mae'n ofynnol imi gadw cofrestr o'r ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â'r dadansoddiad o bob ymateb. Byddaf hefyd yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i'n credu, ar sail yr wybodaeth bellach a fydd yn dod i law, y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu. Yn ychwanegol at gyhoeddi'r wybodaeth ar fy ngwefan, byddaf hefyd yn gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol, o ran trosolwg o'r camau sydd ar eu hanner a'r camau y mae'r cyrff unigol sy'n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'm Cyfarwyddwr Llesiant a Grymuso, Daisy Cole, ar 08442 640670.

Yn gywir

Sarah Rochira

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cam Gofynnol 1.6

Casgliad Cychwynnol - Derbyniol

1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fydd pobl hŷn yn wynebu camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol neu pan fydd perygl o hynny.
- pan fydd cartref gofal yn cau neu bobl hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid.
- pan fydd angen cymorth ar bobl hŷn i'w helpu i adael yr ysbyty.

Os bydd gallu pobl yn mynd a dod neu os bydd hi'n anodd iddynt gyfathrebu, dylid cynnig eiriolaeth heb gyfarwyddyd.

Pan fydd pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, rhaid i breswylwyr allu cael gafael ar eiriolaeth heb gyfarwyddyd.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r gofyniad hwn, i bob golwg, yn dangos ymwybyddiaeth o rôl eiriolwyr, ac mae'n cyfeirio'n gryno at yr amrywiaeth o wasanaethau a darparwyr sydd yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriad at drefniadau prynu yn ôl y galw i sicrhau darpariaeth Eiriolaeth Annibynnol arbenigol a bod Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol ac Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol ar gael.

Er bod datganiad ynglŷn â'r ddarpariaeth bresennol, ychydig o wybodaeth a roddir am y nifer sy'n manteisio arni. Mae'r Awdurdod Lleol yn dweud, serch hynny, ei fod yn ymdrechu i gryfhau ymwybyddiaeth y cyhoedd a swyddogion ynglŷn â'r angen am Eiriolaeth Annibynnol effeithiol. Mae'n mynd yn ei flaen i ddweud y bydd yn trafod rhagor â darparwyr yng nghyfarfod fforwm y darparwyr ac yn archwilio'r ddarpariaeth Eiriolaeth Annibynnol bresennol yn y cartrefi hynny nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'n eu comisiynu.

Mae'r Awdurdod Lleol yn dweud y bydd angen ystyried o ble y daw eiriolwyr ychwanegol a hefyd yr effaith a gaiff hynny ar feysydd eraill yn y gweithlu gofal cymdeithasol, sydd hefyd o bosibl yn eiriol ar ran

preswylwyr. Lleisiwyd pryder hefyd am y costau posibl a'r effaith y gallai hyn ei chael ar y ddarpariaeth yn y dyfodol.

Drwyddi draw, serch hynny, mae'r Awdurdod Lleol yn dangos ei fod yn deall yn dda bod angen Eiriolaeth Annibynnol a honno'n amrywiol ei natur, gan gyfeirio at hyn yn ei ddarpariaeth bresennol.

Cam Gofynnol 2.2

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

2.2 Mae pobl hŷn yn gallu cael gafael ar wasanaethau arbenigol a, lle bydd hynny'n briodol, ar ofal gan bobl o sawl gwahanol ddisgyblaeth, a hwnnw wedi'i gynllunio i'w helpu i wella ar ôl cyfnod o afiechyd.

Gallai'r Awdurdod Lleol fod wedi creu cysylltiad mwy clir rhwng y rhain â'r Bwrdd Iechyd Lleol wrth ymateb i'r gofyniad hwn; serch hynny, mae'r ymateb yn dweud bod gofyn i'r Byrddau Iechyd gymryd camau ac y bydd yr Awdurdod Lleol yn cyfrannu lle bo hynny'n briodol. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cyfeirio at raglen Breguster Gwent lle bydd yr Awdurdod Lleol (ynghyd ag awdurdodau rhanbarthol eraill) yn cydweithio â'r Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau amrywiaeth o ganlyniadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Croesewir y ffaith fod 16 o welyau asesu ym Mwrdeistref Caerffili sy'n cael eu defnyddio i gefnogi'r ymagwedd hon. Serch hynny, yn ddelfrydol, dylai'r ailalluogi ddigwydd yn y cartref gofal (yng nghartref y person hŷn) a dylai'r gwasanaeth ddod at y preswylydd. Byddem yn croesawu eglurhad ynghylch a yw'r gwelyau hyn mewn cartrefi gofal neu beidio.

Cam Gofynnol 3.2

Casgliad Cychwynnol - Derbyniol

3.2 Bydd holl weithwyr cartrefi gofal yn cael hyfforddiant dementia sylfaenol fel rhan o'u rhaglen ymsefydlu a bydd pob aelod o'r staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal yn dilyn rhagor o hyfforddiant dementia'n barhaus i ddatblygu eu sgiliau a'u cymhwysedd, a bydd hyn yn elfen benodol o'u goruchwyliaeth ac asesu eu perfformiad.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r gofyniad hwn, i bob golwg, yn dangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ddofn o bwysigrwydd hyfforddiant dementia ac mae'n dweud ei fod yn gweithio ar hyn o bryd gyda 'Mae Gofal Dementia'n Bwysig' er mwyn mynd i'r afael â'r newid diwylliant yng ngweithlu'r cartrefi gofal a hynny yng nghartrefi gofal preswyl Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac ymhlith swyddogion ac arweinyddion comisiynu.

Mae'r ymateb yn mynd ymhellach ac yn dweud bod yr Awdurdod Lleol wedi trefnu hyfforddiant gyda 'Mae Gofal Dementia'n Bwysig' er mwyn ddarparwyr sydd wedi'u comisiynu fanteisio arno. Mae'n hollbwysig mai ar ddeall dementia, adnabod gofal a chymorth o ansawdd da, gallu newid arferion amhriodol a chreu amgylchedd pleserus i breswylwyr y mae'r hyfforddiant hwn yn canolbwyntio.

Mae'n galonogol hefyd fod yr hyn y mae'r staff yn ei ddysgu'n cael ei rannu gyda'r staff Asesu Rheoli Gofal, gyda darparwyr a chyda chydweithwyr ym maes iechyd.

Mae'r Awdurdod Lleol yn dangos ei fod yn deall yn dda bod angen hyfforddiant dementia ac ystod ohono, ac mae hynny'n glir yn ei grynodeb o'r ddarpariaeth bresennol a'i fod yn defnyddio hyn wrth gomisiynu.

Cam Gofynnol 3.3

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

3.3 Dylid mynd ati'n benodol i annog defnyddio cynlluniau cyfeillio mewn cartrefi gofal, gan gynnwys prosiectau sy'n pontio'r cenedlaethau, a helpu preswylwyr i gynnal eu perthynas â chyfeillion. Rhaid i hyn gynnwys sicrhau bod pobl yn gallu parhau i gael cymorth sy'n seiliedig ar eu crefydd a chymorth gan gymunedau diwylliannol penodol.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r gofyniad hwn i bob golwg yn dangos ei fod yn deall pwysigrwydd cyfeillio gan ddweud ei fod yn gweithio gyda phartneriaid ar amrywiaeth o gynlluniau; serch hynny, ni roddir

dadansoddiad cryno o'r cynlluniau hyn sy'n golygu nad oes modd bod yn bendant wrth asesu cyflawni canlyniadau i bobl hŷn.

Mae'r ymateb yn cyfeirio at lenyddiaeth De Cymru'n gweithio gyda darparwyr cartrefi gofal a nifer o brosiectau pontio'r cenedlaethau sy'n gweithio gyda chartrefi gofal ledled y fwrdeistref, yn ogystal â chydweithio â'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol ar y prosiect Gofalu i Wrando - Gwrando i Ofalu - Llais y Cymoedd.

Mae'n amlwg bod gweithgarwch ar y gweill i hybu cyfeillgarwch mewn nifer o gynlluniau, ond heb dystiolaeth o ganlyniadau i bobl hŷn yn awr ac/neu yn y dyfodol, mae'n anodd llunio casgliad am effaith a chyrhaeddiad y gwaith hwn.

Cam Gofynnol 5.6

Casgliad Cychwynnol - Annerbyniol

5.6 Sefydlu Cynllun Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal lle bydd Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu risgiau parhaus ynghylch ansawdd bywyd neu'r gofal a roddir i breswylwyr a/neu'r posibilrwydd o darfu ar eu hawliau dynol.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio Rheolwyr Cartrefi Gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, i ddarparu cefnogaeth ddwys a thrawsnewidiol i wella safonau ansawdd bywyd a gofal i breswylwyr, yn ogystal ag i atal a lliniaru risgiau ym maes diogelu yn y dyfodol.

Dylai'r gwasanaeth hwn hefyd ddatblygu amrywiaeth o adnoddau a deunyddiau hyfforddi i helpu cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunanddatblygu a gwella'n barhaus.

Nid yw ymateb yr Awdurdod Lleol yn dangos parodrwydd i gydymffurfio â'r gofyniad; yn hytrach, mae'n awgrymu y byddai cyflwyno Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol yn golygu cyflwyno lefel ychwanegol ddiangen o fiwrocratiaeth.

Mae angen rhagor o eglurhad am ymateb yr Awdurdod Lleol i'r gofyniad hwn i ddangos sut y byddai Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol yn gweithio yn y Fwrdeistref, a sut y byddai'n cael ei reoli a'i gefnogi. Mae gofyn cael gwybodaeth hefyd am sut y byddai Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol yn cysylltu â rôl comisiynwyr yr Awdurdod Lleol, y Byrddau Iechyd ac AGGCC.

Er bod ymateb yr Awdurdod Lleol yn codi nifer o faterion dilys, gan gynnwys ynglŷn â'r disgwyliad bod y darparwr yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am sicrhau bod ei wasanaeth yn hybu datblygiad parhaus er budd y preswylwyr, a'i fod yn dod yn llai dibynnol ar ysgogiadau allanol i adnabod a delio â'r arferion gwael sy'n amharu ar ansawdd bywyd pobl hŷn, nid yw'r ymateb yn dangos cefnogaeth yr Awdurdod Lleol i wasanaeth o'r fath. Cynhelir cyfarfod i archwilio hyn y gallai Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol yng Nghymru fod mewn gwirionedd a disgwylir i lawer o gwestiynau'r Awdurdod Lleol gael eu hateb yn y fforwm hwn.

Cam Gofynnol 6.2

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau eu bod yn gweithredu ar eu sylwadau.

Dylid adrodd yn ôl yn flynyddol am sut mae'r adborth parhaus gan bobl hŷn wedi cael ei ddefnyddio i sbarduno gwella parhaus (gweler cam 6.10).

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r gofyniad hwn, i bob golwg, yn dangos ei fod yn deall pwysigrwydd gwrando ar leisiau pobl hŷn a sicrhau bod y materion a godir yn cael sylw.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol yn dangos bod y cyngor wrthi'n adolygu ac yn datblygu pecyn monitro newydd sy'n canolbwyntio ar ansawdd gofal, lles emosiynol ac ymgysylltu â phreswylwyr ac ar eu rhan. Bydd y pecyn monitro newydd yn canolbwyntio llawer mwy ar ymgysylltu â phreswylwyr ac ar ofyn am adborth mewn ffordd wahanol er mwyn profi'r ansawdd a'r canlyniadau i breswylwyr.

Mae'r ymateb yn dweud hefyd fod yr Awdurdod Lleol yn archwilio'r posibilrwydd o gynnal cyfarfodydd â phreswylwyr fel rhan o'r broses fonitro yn ogystal â chyfarfodydd i geisio adborth perthnasau a theuluoedd y tu allan i'r cartref. Mae'n awgrymu hefyd y cynhelir trafodaethau â'r Bwrdd Iechyd ynghylch pa mor ymarferol fyddai rhagor o waith partneriaeth. Er bod croeso mawr i'r datblygiadau hyn, mae'r ffaith bod yr ymateb ar ffurf crynodeb yn golygu bod y cynlluniau hyn yn ymddangos yn gynlluniau digyswllt ar wahân yn hytrach na'u bod yn ffurfio cynllun a fydd yn sicrhau canlyniadau mesuradwy go iawn i bobl hŷn.

Gellid gwella'r ymateb drwy gyflwyno cynllun gweithredu clir, amserlen ac enwi unigolyn atebol i gynnig sicrwydd y bydd yr Awdurdod Lleol yn cyflawni'r Cam Gofynnol mewn gwirionedd.

Cam Gofynnol 6.7

Casgliad Cychwynnol - Annerbyniol

6.7 Bydd Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn cael eu cyhoeddi gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a gomisiynir a rhai'r Awdurdod Lleol. Dylai hyn gynnwys:

- yr Eiriolaeth Annibynnol sydd ar gael mewn cartrefi gofal
- ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn, gan gynnwys cyfeiriad penodol at bobl hŷn sy'n byw gyda dementia a/neu nam ar y synhwyrau
- sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ledled yr Awdurdod Lleol
- barn pobl hŷn, eiriolwyr ac aseswyr lleyg am ansawdd bywyd ac ansawdd y gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal
- lleoliad daearyddol cartrefi gofal

Dylid cynnwys rhagor o fanylion am y gofynion adrodd yn rhan o'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu.

Nid yw ymateb yr Awdurdod Lleol i'r gofyniad hwn yn ymrwymo i gyhoeddi Datganiadau Ansawdd Blynyddol, ac nid oes cyfeiriad uniongyrchol ychwaith at hyn. Yn hytrach, mae'r ymateb yn trafod yr arferion presennol, sef cyhoeddi adroddiadau monitro ar gyfer sefydliadau unigol ar y rhyngrwyd er mwyn i unrhyw un sy'n ceisio penderfynu ynghylch cartref gofal preswyl/nyrsio eu gweld.

Mae'r Awdurdod Lleol yn dweud y caiff fformat a chynnwys yr adroddiad eu hadolygu'n unol â'r pecyn monitro ac y cânt eu diwygio yn ôl y gofyn er mwyn canolbwyntio'n well ar ansawdd bywyd yn y cartref. Serch hynny, er bod yr ymagwedd hon, i bob golwg, yn hybu dull agored a thryloyw, nid yw'n ymddangos ei bod yn cyflawni'r gofynion a nodir uchod a bydd angen i'r comisiynydd gael rhagor o fanylion er mwyn ystyried a yw hyn yn ddewis amgen hyfyw.

Atodiad 1:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, cwestiynau a godwyd

Cam Gofynnol 1.5

Cwestiwn: "Mae gan CBSC rywfaint o amheuon ynglŷn â'r cam gweithredu hwn - er bod y Cyngor yn credu bod y diwylliant ym mhob cartref yn hybu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth roi gofal ac yn sicrhau bod pob preswylydd yn cael ei drin gydag urddas a pharch, teimlir bod hyn yn ffordd negyddol iawn o fynd o'i chwmpas hi. Efallai y byddai wedi bod o gymorth rhoi enghreifftiau, a phwy fyddai'n datblygu rhestr o'r fath?"

Tybiwyd bod a wnelo'r cwestiwn hwn â datblygu 'digwyddiadau byth' gan holi pwy fyddai'n datblygu rhestr o'r fath.

Mae'r Comisiynydd yn disgwyl mai Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a fydd yn arwain wrth ddatblygu rhestr fanwl o ddigwyddiadau byth, ar y cyd â phartneriaid perthnasol lle byddai hynny'n briodol. Barn y Comisiynydd yw nad yw hyn yn ffordd negyddol o wella ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal yng Nghymru, o'i gweld ochr yn ochr â chanolbwyntio ar ofal da a gwella parhaus. Fel y nodir yn glir yn Adroddiad yr Adolygiad, bwriad y Cam Gofynnol yw sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu trin gydag urddas a pharch, na fydd yr iaith sy'n cael ei defnyddio'n eu dad-ddyneiddio a bod defnyddio iaith o'r fath yn cael ei gydnabod yn ffurf ar gam-drin. Heb ddatblygu rhestr o'r fath a'i rhoi ar waith, mae cryn berygl i arferion annerbyniol barhau heb i neb eu herio.

Cam Gofynnol 4.5

Cwestiwn:

"Mae CBSC yn gofyn am eglurhad am y cam gweithredu hwn ac mae'n holi pa mor briodol ydyw a sut y bydd rôl cynghorau iechyd cymuned yn cydweddu â rôl AGGCC a'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd. Mae hyn yn golygu bod haen graffu arall yn cael ei chynnig ar ben yr hyn sy'n bodoli eisoes - a oes angen hyn?"

Tybiwyd bod a wnelo'r cwestiwn hwn â rôl y Cynghorau Iechyd Cymuned, a'r posibilrwydd o greu haen graffu ychwanegol.

Bwriad defnyddio'r Cynghorau Iechyd Cymuned i roi rhaglen dreigl o archwiliadau dirybudd ar waith yw edrych ar ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal yng Nghymru o safbwynt lleyg ac mae gwir angen gwneud hyn - yn enwedig yng nghyswllt hawliau gofal iechyd. Nid creu haen ychwanegol yw'r bwriad, ond, ond yn hytrach, ategu'r rhaglen reoleiddio ac arolygu bresennol a chydweddu â hi.

At hynny, fel y dywedir yn glir yn Adroddiad yr Adolygiad, oni wneir hyn, byddwn yn gwadu i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yr hawl i gael rhywun annibynnol yn cadw golwg ar eu hiechyd. Hefyd, byddai methu â sicrhau hawliau gofal iechyd pobl yn agored i her annibynnol.

Cam Gofynnol 5.2

Cwestiwn:

"Hoffai CBSC gael eglurhad ynghylch pwy fyddai'n defnyddio pecyn o'r fath - ai ar gyfer y darparwr y byddai hyn, ai ar gyfer AGGCC a/ynteu ar gyfer y comisiynydd?"

Tybiwyd bod a wnelo'r cwestiwn hwn â datblygu pecyn aciwtedd safonol cenedlaethol a'i roi ar waith ar gyfer lefelau staffio a sgiliau.

Mae'r Comisiynydd yn disgwyl mai Llywodraeth Cymru a fydd yn arwain wrth ddatblygu pecyn o'r fath a'i roi ar waith. Pecyn safonol fydd hwn a fydd ar gael i BOB corff er mwyn sbarduno'r gwelliannau angenrheidiol yn ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal yng Nghymru a hynny mewn ffordd gyson.

Cam Gofynnol 5.6

Cwestiwn:

"Mae CBSC yn gofyn am ragor o eglurhad am rôl gwasanaeth gwella o'r fath, sut y byddai'n gweithredu, yn cael ei reoli a'i gefnogi. Hefyd, sut y byddai hyn yn cael ei gysylltu â rôl comisiynwyr Awdurdod Lleol, y Byrddau Iechyd ac AGGCC, oherwydd mae'r trefniadau contractaidd yn amlwg gyda'r ALl a chomisiynwyr y Bwrdd Iechyd, a'r cyfrifoldeb am gydymffurfio â'r AGGCC. Sut y byddai gwasanaeth o'r fath yn cael ei ariannu?"

"A yw'n bosibl y gallai gwasanaeth o'r fath fod yn rhwydwaith rhithiol sy'n tynnu ynghyd wybodaeth gan gyrff sefydledig yn y bôn, gan sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei rhannu'n brydlon?"

Tybiwyd bod a wnelo'r cwestiwn hwn â datblygu Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol.

Er mwyn bwrw ymlaen â'r Cam Gofynnol hwn, cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ddydd Llun 30ain Mawrth i gael gwybodaeth ac adborth gan gynrychiolwyr y sector am y ffordd fwyaf effeithiol i bob rhanddeiliad ddefnyddio'r Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol. Roedd Dave Street yn cynrychioli Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn y cyfarfod.

Mae'r Comisiynydd yn disgwyl mai Llywodraeth Cymru fydd yn arwain wrth ddatblygu'r Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol, ar y cyd â'r Awdurdodau Lleol, y Byrddau Iechyd a darparwyr y cartrefi gofal. Mae

angen ystyried trefniadau ariannu gwasanaeth o'r fath, a defnyddio rhwydwaith rhithiol wrth i'r trafodaethau hyn barhau i ddatblygu. Nid yw'r Comisiynydd wedi pennu beth fydd strwythur gofynnol y Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol.

Cam Gofynnol 5.8

Cwestiwn:

"Barn CBSC yw na fyddai ymarfer o'r fath ond yn atgyfnerthu'r farn gyffredin bod staff gofal ymhlith y gweithwyr hynny sy'n ennill y cyflogau isaf, mai gwaith gofal yw'r unig ddewis sydd ar gael i rai gweithwyr a bod y rôl yn cael ei thanbrisio'n gyffredinol. Serch hynny, dylid nodi nad oes cydberthynas rhwng y swm a delir i staff gofal ac ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn eu darparu. Mewn gwirionedd, pa fudd fyddai i'r ymarfer hwn?"

Tybiwyd bod a wnelo'r cwestiwn hwn â gwerth cynnal dadansoddiad cost-budd o delerau ac amodau staff cartrefi gofal.

Mae'r Comisiynydd yn disgwyl i Lywodraeth Cymru arwain wrth gwblhau'r Cam Gofynnol hwn. Mae Adroddiad yr Adolygiad yn dangos yn glir y bydd ymgymryd ag ymarfer o'r fath, gan gynnwys deall effaith cyflwyno'r Cyflog Byw, yn sicrhau bod gwir werth darparu gofal yn cael ei gydnabod a'i ddeall. Barn y Comisiynydd yw y bydd effaith peidio â gwneud hynny'n arwain at gronfa recriwtio gyfyngedig oherwydd yr anawsterau parhaus i recriwtio pobl sydd â'r sgiliau, y gwerthoedd a'r cymwyseddau iawn.

Er bod y Comisiynydd yn sylweddoli nad yw'r cysylltiad rhwng cyflogau ac ansawdd gofal yn gysylltiad uniongyrchol, ei barn hi yw ei bod yn rhaid i Gymru ystyried yn strategol fater cyflogau a thelerau ac amodau o ran recriwtio a chadw staff, ac effaith hynny ar ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn yn gyffredinol.